

*Patrwm cyflwyno O fis Chwefror i fis Medi**Disgrifiad o'r modiwl*

Mae'r modiwl hwn yn dilyn T176, Peirianeg: swyddi, ymarfer a sgiliau 1 ac mae'n ymestyn gwaith cynllunio myfyrwyr o ran datblygiad personol a phroffesiynol ym maes peirianeg, gan eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ennill statws peirianeg proffesiynol ymhellach. Mae'r modiwl hefyd yn canolbwyntio ar weithio gyda data gan gynnwys trin data, dadansoddi data, a chyflwyno a chyfleu canlyniadau'n llwyddiannus. Mae gweithio mewn tîm yn chwarae rôl bwysig yn y modiwl a bydd myfyrwyr yn mynychu ysgol breswyl gysylltiedig orfodol, wythnos o hyd a gynhelir mewn prifysgol yn y DU. Gyda chymorth tiwtoriaid profiadol, byddant yn ymgymryd â gwaith labordy, dadansoddi a chynllunio sy'n berthnasol i beirianwyr. Bydd myfyrwyr hefyd yn meithrin sgiliau ymarferol o ran cymryd mesuriadau, dadansoddi data, modelu, ceisio a gwerthuso gwybodaeth, yn ogystal â datblygu eu sgiliau cyflwyno ymhellach.

Mae T276 yn fodiwl gorfodol ar Gam 2 o BEng (Anrh) a MEng.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol mewn peirianeg neu bwnc sy'n gysylltiedig â pheirianeg
- brwdfrydedd dros addysgu peirianeg i ystod amrywiol o fyfyrwyr
- y gallu i gynghori ac arwain myfyrwyr ynglŷn â chaffael sgiliau allweddol gan gynnwys dadansoddi data
- y gallu i gynghori ac arwain myfyrwyr o ran llunio cynllun datblygiad personol a phroffesiynol
- parodrwydd i ddatblygu arbenigedd yn yr adnoddau trin a dadansoddi data angenrheidiol a ddefnyddir yn y modiwl
- y gallu i hwyluso gwaith tîm
- parodrwydd a gallu i ymwneud â gweithgareddau cydamserol ac anghydamserol ar-lein gyda myfyrwyr gan gynnwys defnyddio meddalwedd ac adnoddau portffolio.
- parodrwydd, a gallu, i addysgu gweithgaredd sy'n gysylltiedig â pheirianeg mewn ysgol breswyl wythnos o hyd

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianeg
- profiad o addysgu oedolion ym maes addysg bellach neu addysg uwch ac addysgu o bell
- profiad fel peiriannydd siartredig neu gorfforedig, gyda golwg gyffredinol ar y gofynion proffesiynol ac addysgol ar gyfer statws siartredig neu gorfforedig gyda sefydliad peirianeg
- brwdfrydedd dros ddatblygiad personol a phroffesiynol a gwybodaeth amdanynt

Gwybodaeth ychwanegol

Disgwylir i diwtoriaid addysgu mewn ysgol breswyl wythnos o hyd sy'n gysylltiedig â T276 o dan gcontract ar wahân. Cynhelir yr ysgolion ym mis Gorffennaf a mis Awst.

Addysgir y modiwl drwy gymysgedd o diwtorialau ar-lein, fforymau ac adnoddau cydamserol ac anghydamserol eraill.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	3.5